

**Defnyddwyr Cymru'n cael blas ar bysgod cragen wrth i ddata diweddaraf Kantar Worldpanel ddangos cynnydd mewn gwerthiant.**

**Gwerthiant pysgod cragen a physgod wedi'u paratoi 15% a 14% yn uwch (y flwyddyn hyd at Fedi 2016).**

**Newyddion da i gynhyrchwyr Cymru a'r 475 swydd yn y sector cynhyrchu lle mae pysgod cregyn yn dominyddu, gyda chregyn gleision, cocos a gwichiaid yn hynod bwysig**


Cafwyd gostyngiad o 1.9% mewn gwerthiant adwerthu bwyd môr yng Nghymru i £141m. Er gwaethaf cynnydd yn amllder prynu bwyd môr (1% yn uwch) a chynnydd yn y pris (1% yn uwch), mae siopwyr wedi bod yn prynu llai ym mhob ymweliad (-2.7%), ac felly roedd y cyfaint 2.9% yn is.

Mewn cymhariaeth, gwerthiant bwyd môr Prydain 1.4% yn uwch ar £2.67bn. Mae cyfaint ym Mhrydain yn tyfu 1%; er bod siopwyr yn prynu llai ym mhob ymweliad (-1.5%) maent yn prynu'n amlach (+1.6%). Mae pris uwch y kilo (0.4%), a thwf poblogaeth (1%) wedi arwain at gynnydd o £35.7m mewn gwariant. Mae siopwyr bwyd môr Prydain yn fwy cefnog ac yn iau na'r rhai yng Nghymru, all esbonio pam nad yw'r newid mewn pris wedi effeithio cymaint ar gyfaint prynu ag y gwnaeth yng Nghymru.

Mae cynnyrch ffres yn cyfrif am 47% o werth gwerthiant adwerthu bwyd môr yng Nghymru, gwerth £65.8m yn y flwyddyn hyd at Fedi 2016, 4% yn uwch. Gyrrwyd hyn gan gynnydd sylweddol mewn bwyd môr, i £9.8m a physgod parod wedi'u hoeri i £12.9m. Roedd gostyngiad bychan mewn pysgod ffres gwlyb a physgod mwg, 1% yn is i £43m.

Mae'r cynnydd mewn gwerthiant pysgod ffres a physgod cregyn yn dod ar draul y sector wedi rhewi, a welodd werth gwerthiant cynnyrch megis pysgod mewn briwsion ac mewn cyteu yn gostwng yn flynyddol. Mae'n

Cyfanswm Pysgod a Bwyd Môr | Cyfanswm Cymru | 52 wythnos 11 Medi 2016



parhau'n sector pwysig gyda gwerthiant adwerthu o £45.2m. Gostyngodd gwerth gwerthiant pysgod tun i £30m.

Yng Nghymru, mae gan y siopau disgownt (Aldi a Lidl) 14.7% o'r farchnad a'r siopau 'premiwm' (Waitrose a M&S) â 12%, gyda'u cynnydd yn dod ar draul Tesco, Asda a Sainsbury's dros y flwyddyn ddiwethaf. Tra mai Tesco sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'r gwerthiant, ar £33.9m, roedd eu gwerthiant 8% yn is. Tyfodd gwerthiant bwyd môr Lidl 28% i £9.9m, a M&S 17% i £11m. Mae'n parhau'n farchnad arbennig o gystadleuol.